PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU
Lle i enaid gael llonydd








NATIONAL PARKS WALES
Britain's breathing spaces

Mr Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd
Pwyllgor Datblygiad Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd CF99 1NA

Anfonwyd mewn ebost: ruraldev.comm@wales.gov.uk

Medi 2010

Annwyl Mr Glyn Thomas,

## Ymholiad i Dwristiaeth Wledig

Diolch yn fawr am y cyfle hwn i gyfrannu i'ch ymholiad sy'n archwilio twristiaeth wledig yng Nghymru.

### 1. Cyflwyniad

1.1 Rheolir y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA); Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (PCNPA) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (SNPA). Maent yn gorchuddio oddeutu 20% o arwynebedd y tir.

1.2 Mae gan Barciau Cenedlaethol ddau bwrpas statudol sydd wedi'u disgrifio yn Adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995:

- diogelu a mwyhau harddwch naturiol, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol yr ardaloedd;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hynny.

1.3 Trwy gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, bydd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APC) yn ceisio datblygu lles economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol. Maent yn awdurdodau lleol annibynnol sy'n gweithredu o fewn y fframwaith llywodraeth leol.

1.4 Cymdeithas Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (CAPCC) yw'r bartneriaeth rhwng y tri APC sy'n codi proffil y materion hynny sy'n effeithio ar y Parciau Cenedlaethol ac sy'n cyfrannu arbenigedd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i bolisïau perthnasol.

Cymdeithas Awdurdodau
Parciau Cenedlaethol Cymru

Welsh Association of
National Park Authorities

126 Stryd Bute / 126 Bute Street
Caerdydd / Cardiff, CF10 5LE

Ffôn / Tel 029 2049 9966
Ffacs / Fax 029 2049 9980
Ebost / Email wanpa@anpa.gov.uk

1.5 Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau am y maes pwysig hwn o waith strategol ac yn llongyfarch y Pwyllgor am ymdrin ag o. Credwn fod twristiaeth wedi datblygu'n un o'r darnau pwysicaf o'r economi gwledig, ac mae'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r economi ymwelwyr gweladwy. Mewn oes pan fo incwm sy'n dod o amaethyddiaeth yn dirywio'n sylweddol, ychydig iawn o ffactorau eraill sydd gan Gymru wledig i yrru'r economi ac mae'n hanfodol bod y wlad yn rheoli ei heconomi twristiaeth gyda'r bwriad o sicrhau'r budd mwyaf ohono i'r cyhoedd. Mae'n aneglur o ble arall y bydd yr incwm gwledig yn dod yn y dyfodol.

## 2. Rôl Twristiaeth yn yr Economi Wledig

2.1 O gynllunio gan ystyried cynaliadwyedd, ychydig iawn o ddiwydiannau sy'n prynu cymaint o'u defnyddiau crai o'u hardaloedd lleol; ychydig iawn o gwsmeriaid unrhyw ddiwydiant arall sy'n prynu cymaint gan gymaint o fusnesau lleol; ychydig iawn o ddiwydiannau sy'n gallu cyfrannu cymaint i'w diwylliant a'u hamgylchedd lleol.

2.2 Bydd busnes twristiaeth yn prynu gan gynhyrchwyr bwyd lleol, yn hurio gwasanaethau golchdy lleol, dylunwyr cyhoeddusrwydd lleol, dylunwyr gwefannau lleol, ac ati a bydd yn defnyddio siopau lleol i ddiwallu llawer o'u hanghenion. Yn wir, po fwyaf anghysbell yw'r gymuned y maent yn masnachu ynddi, y mwyaf tebygol ydyw y byddent yn dibynnu ar fasnach leol.

2.3 Yn yr un modd, bydd ymwelwyr a groesewir i gymuned yn lledaenu eu busnes ymysg siopau'r pentref a thafarndai, modurdai lleol, swyddfeydd post ac efallai y byddent hyd yn oed yn defnyddio'r gwasanaethau bws lleol. Os oes sioe amaethyddol, eisteddfod neu gynhyrchiad theatr gallent dalu i fynd i'r rhain hefyd - yn wir mae'r pwyslais cynyddol ar *Ymdeimlad o Le* mewn twristiaeth Gymreig yn gwneud hyn yn fwy tebygol. Mae'r holl adnoddau hyn yn hanfodol i barhau ansawdd bywyd y bobl leol. Mae'n anodd gweld faint o'r rhain fyddai'n gallu ffynnu'n ariannol heb gefnogaeth twristiaeth.

2.4 Yn amgylcheddol, mae gan Gymru Wledig lawer i'w gynnig i ymwelwyr yn nhermau profiadau o ansawdd uchel. Os yw'r incwm sy'n llifo o'r rhain yn cael ei fwydo'n ôl i reoli cadwraeth, os yw pobl leol yn gwerthfawrogi eu hadar ysglyfaethus neu'n glanhau eu hafonydd yn amlach, os yw ymwelwyr yn ymadael gyda gwell gwerthfawrogiad o anghenion cefn gwlad, yna gall twristiaeth gyfrannu.

2.5 Gall twristiaeth sydd wedi'i reoli'n sensitif ac yn gynaliadwy amddiffyn a gwella nodweddion arbennig y genedl; yn arbennig nodweddion arbennig y tirlun, diwylliant a'r iaith y gwelwn enghreifftiau ohonynt yn ein Parciau Cenedlaethol. Mae perthynas symbiotig twristiaeth gyda'n hamgylchedd ansawdd uchel, treftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth yn cyfrannu'n gryf at eu hamddiffyniad a'u rheolaeth.

2.6 Wrth gwrs, mae gan dwristiaeth ei anfanteision ac mae'n rhaid delio â'r rhain ar lefel gymunedol a rhanbarthol. Fodd bynnag, mae rheoli ymwelwyr a'r effaith a gânt yn un o rolau craidd a chyfrifoldebau Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol. Rydym wedi'n cynnwys ein hunain fwy a mwy yn y broses hon, gan ddefnyddio cyfleoedd y mae'r syniad gweddol newydd o reoli cyrchnod wedi'u rhoi i ni i ymgysylltu â phartneriaid mewn twristiaeth a datblygu agenda ehangach sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd tymor hir-canolig twristiaeth.

2.8 Oherwydd cyfraniad gweddol isel ardaloedd gwledig i'r Cynnyrch Domestig Gros, mae'n ymddangos yn aml iawn eu bod yn cael eu hanwybyddu wrth i'r llywodraeth geisio 'mwy o effaith' yn rhywle arall. Fodd bynnag, ardaloedd gwledig Cymru sy'n creu hunaniaeth graidd y wlad ac mae'n beryglus eu hesgeuluso. Mae'n hanfodol bod y rôl y mae twristiaeth yn ei chwarae mewn cefnogi ansawdd uchel amcanion bywyd yn ein cymunedau gwledig wedi'i chydnabod gan wneuthurwyr polisi ar lefel leol, ranbarthol ac, yn bwysicaf oll, genedlaethol.

2.7 Mae twristiaeth yn rhan hanfodol o fframwaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru Wledig. Credwn nad yw'r rôl yma wedi cael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi ddigon yn hanesyddol. Yn aml iawn mae twristiaeth yn helpu i dalu costau gweithgareddau economaidd eraill megis amaethyddiaeth, ac yn derbyn ychydig iawn o gymhorthdal y trethdalwr mewn cymhariaeth. Er ei bod hi'n ymddangos fel pe bai'n cael llai o effaith ar y Cynnyrch Domestig Gros ar lefel Cymru gyfan, yn nhermau cymunedau cefn gwlad, mae'n anodd gweld pa fath arall o ddatblygiad economaidd sy'n gallu cael cymaint o effaith â hyn.

## 3. A yw cefnogaeth i dwristiaeth cefn gwlad yn cael ei chydlynu'n effeithiol gan Lywodraeth Cymru?

3.1 Mae pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gweithio'n agos iawn gyda Chroeso Cymru a'u Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol. Rydym yn ein hystyried ein hunain yn rhan hanfodol o'r gwaith o ddarparu twristiaeth yng Nghymru ac yn bartneriaid allweddol i Lywodraeth Cymru.

3.2 Roeddem yn pryderu'n fawr pan gyhoeddwyd toriadau mawr yng nghyllidebau Croeso Cymru nifer o flynyddoedd yn ôl ac yn difaru'r cwtogi dilynol mewn rhannau sylweddol o'u gwaith. Mae Twristiaeth Wledig wedi dioddef yn arbennig am fod pwysau i gyfeirio toriadau at yr ardaloedd gwledig oherwydd y gwariant is ar ymwelwyr.

3.3 Rydym yn ystyried yr agwedd hon yn annoeth am ei bod yn torri ar draws amcanion polisi cyhoeddus eraill megis cydlyniad cymdeithasol, ansawdd bywyd, cadwraeth amgylcheddol, mewnfudo/ymfudo ac ati. Byddem yn dadlau dros roi mwy o sylw i ddatblygu twristiaeth wledig lle gellir gwneud hynny mewn ffordd sy'n hybu cynaliadwyedd yn ei ystyr ehangaf – megis, lle mae'n ymddangos bod y cymunedau, yr amgylchedd a'r economi ynghyd yn elwa ohono.

3.4 Mae'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn bartneriaid allweddol yn y broses o sicrhau cydlyniad a datblygiad y sector twristiaeth gynaliadwy. Mae oddeutu 20% o Gymru o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol ac mae crynhoad y dwristiaeth sy'n

gysylltiedig â hamdden yn eu gwneud yn rhanddeiliad allweddol o ran cyflawni amcanion twristiaeth genedlaethol a rhanbarthol.

## 4. Sut allai Llywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae'n darparu cefnogaeth i dwristiaeth wledig?

4.1 Mae Cynllun Gweithredu Twristiaeth Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru a gynhyrchwyd yn 2007 (yn ogystal â TOAP Cynllun De Orllewin Cymru) yn dal i fod yn hynod berthnasol i wella darpariaeth twristiaeth a'i chynhyrchion yng Nghymru wledig yn gyffredinol. Yn ogystal â'r rhain, argymhellwyd gwelliannau mawr i'r strwythurau sy'n cefnogi ac yn darparu ym mhapur Rheoli Cyrchnodau (2009) a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru. Byddai cydlynu a chyllido darpariaeth y ddau ymyriad strategol yma'n mynd ymhell i sicrhau na chaiff twristiaeth wledig ei hesgeuluso.

4.2 Yn gyffredinol, mae'r gwaith yma'n ymwneud llai ag ymyriadau cyfalaf sylweddol a mwy ag adeiladu gallu, pweru ac ymgysylltiad – nad yw unrhyw un ohonynt o anghenraid yn ddrud, ond y mae pob un yn gofyn ymrwymiad tymor hir i gefnogi a datblygu busnesau lleol a'u cymunedau.

4.3 Y cyllido sy'n hynod bwysig yw hwnnw sy'n cefnogi cynhaliaeth a datblygiad y mannau cyhoeddus y mae ymwelwyr yn eu defnyddio'n rhad ac am ddim pan fyddent yn aros yno. O ran y Parciau Cenedlaethol, mae hyn yn cyfeirio at y tirlun a'r dull mynediad. Felly, mae cyllido Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a Grantiau Mynediad Arfordirol wedi cyfrannu at ddarparu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr.

4.4 Mae'n eironi chwerw bod llwyddo i ddenu mwy o ymwelwyr yn rhoi mwy o bwysau ar yr amgylchedd gwledig a'r sefydliad sy'n gyfrifol am reolaeth. Efallai mai ffansïol ar hyn o bryd yw'r syniad o fecanwaith sy'n galluogi i ni ddarparu adborth ariannol positif i'r gwaith o reoli twristiaeth gyda'r arian a ddaw o'r gwariant cynyddol gan ymwelwyr, ond mae strategaeth o'r fath yn dod yn gynyddol angenrheidiol mewn cyfnod pan fo cyllidebau sector cyhoeddus yn mynd yn dynnach tra bo niferoedd yr ymwelwyr yn parhau i godi.

4.5 Yn ogystal, ychydig iawn o waith ymchwil neu fuddsoddiad sydd wedi'i ganolbwyntio ar ostwng effeithiau negyddol twristiaeth ar yr amgylchedd naturiol – un o brif gynhyrchwyr twristiaeth Cymru – yn arbennig o fewn y Parciau Cenedlaethol; bydd dirywiad anfwriadol ein hamgylchedd naturiol yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth. Credwn hefyd bod angen gwaith ymchwil ychwanegol sy'n ystyried sut y gallwn ostwng effeithiau traffig a chludiant twristiaeth.

4.6 Credwn mai'r mecanweithiau darparu allweddol yw partneriaethau rheoli cyrchnod yn gweithio'n agos â'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol. Bydd hynny'n caniatáu i ymdrechion strategol a lleol gael eu cyfuno yn y ffordd fwyaf effeithiol. Rydym hefyd yn croesawu ail-gyflwyno grantiau cyfalaf twristiaeth wedi'u targedu gan Lywodraeth y Cynulliad.

## 5. Pa gynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a gynhwysir yn amrywiol strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i dwristiaeth wledig?

5.1 Mae gan dwristiaeth wledig gysylltiadau ag amrywiaeth enfawr o strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n amlwg bod y rhain yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth ond hefyd â datblygiad economaidd gwledig (gan gynnwys buddiannau amaethyddol); cynllunio defnydd tir; cludiant; diwylliant a threftadaeth, ac iechyd a lles. Mae dadansoddiad ehangach yn awgrymu bod cynnydd i'w weld yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd, er bod y rhestr mor amrywiol ac eang nes y byddai dadansoddiad manwl yn gofyn am well dangosyddion sy'n benodol berthnasol i ddiwydiant; mae nifer o'r dogfennau perthnasol yn cynnwys camau gweithredu ond wedi hepgor dangosyddion – mae dangosyddion wedi'u mesur sy'n hawdd eu casglu yn hanfodol ar gyfer modelu dyfodol twristiaeth cefn gwlad. I'r perwyl hwn, gallai'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol helpu drwy eu Hadroddiadau am Gyflwr Parciau sy'n cynnwys data o'r fath.

5.2 Wrth archwilio'r strategaethau perthnasol, mae'n amlwg bod angen diweddaru'r fframwaith strategol er mwyn cymryd i ystyriaeth ymddangosiad y strategaethau rhanbarthol a sectoraidd mwy diweddar. Does dim angen i strategaeth drosfwaol fod yn rhy fanwl, ond dylai ddod â holl haenau sectorau perthnasol at ei gilydd. Er enghraifft, byddai gwell integreiddiad rhwng strategaethau twristiaeth a chludiant yn arwain at ostyngiad mewn effeithiau amgylcheddol ac, heb amheuaeth, yn gwella ansawdd profiad yr ymwelydd drwy ostwng tagiant a chefnogi cludiant cynaliadwy.

5.3 Y pryder mawr yw bod llai o flaenoriaeth yn aml iawn i dwristiaeth mewn ardaloedd gwledig oherwydd ystyrir eu bod yn cynhyrchu llai o gyfoeth economaidd. Er bod hyn yn wir ar lefel genedlaethol, yn nhermau ei chyfraniad i'w heconomi lleol, mae twristiaeth yn cael effaith eithriadol o uchel ac mae angen cydnabod hyn ar lefel strategol. Efallai mai'r neges allweddol yw bod economïau gwledig yn wahanol a bod angen eu trin felly.

**6. A yw'r strategaethau hyn wedi cael eu diweddaru'n ddigonol o gofio'r nifer o newidiadau cyfundrefnol a newid polisi dros y blynyddoedd diweddar?**

6.1 Mae angen brys am adolygiad o Gynllun Gweithredu 2007 i Ganolbarth Cymru. Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar hyn o bryd am Strategaeth Twristiaeth newydd i Ganolbarth Cymru a ddylai gyflawni llawer o hyn ac rydym yn croesawu'r fenter hon a byddwn yn ei chefnogi.

6.2 Un maes nodedig sy'n gofyn am strategaeth wedi'i ddiweddaru yw twristiaeth gweithgareddau awyr agored. O'i gymharu â'i faint, gall yr is-sector yma gael effaith fawr ar y Parciau Cenedlaethol – yn amgylcheddol bositif, economaidd a negyddol. Mae helpu gweithredwyr i ddarparu sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored cynaliadwy yn hanfodol o gofio ei amlygrwydd a'r tyfiant a ddisgwylir. Gellir gweld un esiampl o arfer da yn Swydd Benfro sy'n cynnwys *Cod Môr/Siarter Awyr Agored Sir Benfro.* Mae hwn wedi derbyn cyllid gan Croeso Cymru yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae dan fygythiad yn barhaol oherwydd ansicrwydd ynghylch cefnogaeth ariannol o un flwyddyn i'r llall. Mae mentrau o'r math a'r ansawdd yma sydd wedi'u profi yn gofyn cyllido craidd dibynadwy a sefydlog am fod llawer iawn o ymdrech wedi'i wneud i geisio cyllid bob blwyddyn.

6.3 Fel hyrwyddwyr achosion gwledig, mae Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn awyddus i helpu i ddatblygu a darparu strategaethau perthnasol; er enghraifft, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi cychwyn cynhyrchu Cynlluniau/Strategaeth Hamdden yn ddiweddar a fydd yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad o fewn y sector yn y dyfodol. Byddent yn ceisio sicrhau'r cynnyrch economaidd uchaf, gan amddiffyn a gwella'r amgylchedd a chefnogi cyfranogiad lleol. Byddent yn ymdrin â chyfleoedd hamdden i ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd ac yn canolbwyntio ar fanteision economaidd ac iechyd.

6.4 Dylai strategaethau wedi'u diweddaru ddarparu dangosyddion i ddangos pa mor effeithiol ydynt.

6.5 Mae cefnogi twristiaeth gefn gwlad yn weithgaredd sydd wedi'i seilio ar bartneriaeth ac mae angen i ni sicrhau bod cymaint o randdeiliaid ag sy'n bosibl yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r gwaith yma. Gallai rhai cyrff yn y sector cyhoeddus fethu â gweld sut mae twristiaeth wledig yn berthnasol i'w gwaith eu hunain, rhaid gwneud ymdrech i addasu'r meddylfryd yma.

## 7. A yw newidiadau trefniadol y blynyddoedd diweddar wedi helpu i gyflawni amcanion yr amrywiol strategaethau?

7.1 Mae lleoliad Croeso Cymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi helpu ac hefyd wedi rhwystro'r ddarpariaeth. Mae'n amlwg bod gweithio'n agosach â'r Gweinidog wedi bod o fantais ac, yn ddamcaniaethol, dylai'r ffaith ei fod yn rhan o'r gwasanaeth sifil olygu ei fod wedi arwain at bolisïau mwy cydlynol, er nad yw hyn wedi digwydd bob amser. Mae Corfforaethiad, fodd bynnag, wedi arwain at inertia mwy biwrocrataidd ac mae wedi gwneud y sefydliad yn fwy cyfyngedig ei weithredoedd. Yn yr un modd, cafodd ei gorfforaethu'n rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr un pryd â thoriadau mawr yn y gyllideb, a effeithiodd ar ei allu i ddarparu'n gyflym ac yn benderfynol.

7.2 Cyn belled ag y bo Cymru wledig yn y cwestiwn, fodd bynnag, mae'r strwythur rhanbarthol wedi golygu bod nifer o'r newidiadau strwythurol yma wedi cael llai o effaith negyddol ar lawr gwlad ac mae'r profiad wedi dangos go iawn mor effeithiol yw'r strwythur Partneriaeth Twristiaeth Rhanbarthol, fel y gwelir yn adolygiad 2008 yr RTP yng Nghymru a chanlyniad yr Adolygiad Rheoli Cyrchnod. Mae'r parhad y mae'r RTP yn ei gynrychioli wedi bod o gymorth mawr.

## 8. Pa gyfraniad mae'r *Strategaeth Twristiaeth Diwylliannol* wedi'i wneud i ddatblygu twristiaeth wledig?

8.1 Mae diwylliant yn rhan allweddol o bwyntiau gwerthu unigryw Cymru a dydy hyn ddim mor amlwg yn unrhyw le arall ag ydyw yn y cymunedau gwledig. Gwnaeth y Strategaeth gyfraniad cryf, yn enwedig yn natblygiad y syniad o *Ymdeimlad o Le*. Yn gyffredinol, rydym wedi gweld bod busnesau lleol yn awyddus iawn i fanteisio ar y syniad o Ymdeimlad o Le. Ym Mannau Brycheiniog mae gan brosiect NWE IVB Interreg, COLLABOR8 , y syniad o Ymdeimlad o Le yn ddwfn yng nghynllun y prosiect. Mae hefyd yn cyllido'r cynllun Llysgenhadon lle hyfforddir busnesau i

gyfathrebu'r Ymdeimlad o Le yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ei nodweddion arbennig, i ymwelwyr. Mae Ymdeimlad o Le yn agos iawn i'r hyn y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ei fynegi drwy ei holl waith dehongli a chadwraeth ac maent yn bartneriaid naturiol yn natblygiad y cysyniad twristiaeth yma.

8.2 Ar sail ehangach, roedd yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn croesawu cyflwyniad y Strategaeth fel ffordd o fynegi unigrywiaeth Cymru i gynulleidfa ehangach. Does dim amheuaeth bod angen ei adnewyddu, ac un o'r rhesymau mwyaf am hynny yw'r holl weithredoedd a gyflawnwyd. Mae hwn yn is-sector sy'n datblygu mewn twristiaeth ac mae angen ystyried cysyniadau newydd sy'n dod i'r amlwg ynghyd â'r gwersi rydym wedi'u dysgu o'n gwaith dros y 5 mlynedd diwethaf.

8.3 Rydym yn credu bod Twristiaeth Ddiwylliannol yn eistedd ochr yn ochr â'r sector gweithgaredd awyr agored fel cydran allweddol o dwristiaeth wledig.

**9. Beth yw eich barn am y cynnig sydd wedi'i gynnwys yn y strategaeth *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad* ar gyfer ailgychwyn y dull *Adfywio* o ymdrin â thwristiaeth wledig?**

9.1 Roedd Adfywio'n ddull newydd yr oedd angen mawr amdano pan gafodd ei lansio yn 2003. Roedd yn hawdd cael gafael arno ac roedd yn hynod berthnasol i'r micro-fusnesau sy'n creu cymaint o'r twristiaeth wledig ynghyd â'r rheiny sy'n creu cyfleoedd hamdden. Roedd hi'n bwysig bod hon yn gronfa refeniw graddfa fechan oedd, hyd hynny, wedi bod yn anarferol. Yn anffodus mae'n parhau felly hyd heddiw.

9.2 Nid yw twristiaeth wledig wedi'i chanolbwyntio ar y datblygiadau cyfalaf mawr y mae rhaglenni megis cydgyfeiriad yn eu hybu. Mae'r rhain yn tueddu bod o fudd i'r sector cyhoeddus neu gwmnïau dinesig mawrion, ac yn hepgor gweithredwyr bychain nad yw datblygiadau graddfa fawr yn briodol iddynt yn aml iawn. Yn nyddiau grantiau cyfalaf Adran 4, roedd busnesau'n colli diddordeb yn aml iawn pan esboniwyd am y trothwy o £10,000 mewn grant ac, o ganlyniad, collwyd cyfleoedd datblygu.

9.3 Nid oedd *Adfywio* heb ei broblemau a byddai'n rhaid talu sylw at y manteision a sicrhawyd ar draws y cymysgedd cynaliadwyedd o grantiau o'r fath.

9.4 Mae Parciau Cenedlaethol Cymru'n cefnogi'r argymhellion twristiaeth i raddau mawr yn y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad ac yn cefnogi'n gryf y cynnig am gronfa o fath Adfywio.

---

Unwaith eto, gawn ni ddiolch i chi am y cyfle i roi ein sylwadau. Cytunwyd ar yr ymateb hwn ar y cyd gan y Swyddogion perthnasol o fewn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol; ond os byddwch eisiau trafod neu ddilyn ymhellach unrhyw rai o'r pwyntiau a godwyd mewn mwy o fanylder, a fyddech chi cystal â chysylltu â mi yn gyntaf os gwelwch yn dda.

Yr eiddoch yn gywir,

Greg Pycroft
Swyddog Polisi Cymru

Cyfranwyr:

Richard Tyler, Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy, BBNPA
John Ablitt, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, SNPA
Ifer Gwyn, Prif Swyddog Polisi, SNPA
Charles Mathieson, Pennaeth Hamdden a Thwristiaeth, PCNPA